Ymateb y Llywodraeth i'r Ymgynghoriad

'Gweithio gyda Thŷ'r Cwmnïau – Dogfen ymgynghori ar reolau'r cofrestrydd a'r darpariaethau cysylltiedig fydd yn gymwys o dan Ddeddf Cwmnïau 2006'

BERR
Department for Business
Enterprise & Regulatory Reform

Ymateb y Llywodraeth i'r Ymgynghoriad 'Gweithio gyda Thŷ'r Cwmnïau – Dogfen ymgynghori ar reolau'r cofrestrydd a'r darpariaethau cysylltiedig fydd yn gymwys o dan Ddeddf Cwmnïau 2006'

Mae Deddf Cwmnïau 2006 ("y Ddeddf") yn newid y ffordd y bydd y cofrestrydd cwmnïau yn gweithredu yn y dyfodol. Yn hytrach na phennu gofynion arbennig drwy ddeddfwriaeth eilaidd, mae'r Ddeddf yn rhoi i'r cofrestrydd y pŵer i wneud rheolau. Mae'r ymagwedd hon yn cynnig mwy o ystwythder a threfn sy'n llai cymhleth yn weinyddol pan fydd angen newidiadau yn y dyfodol.

Ar 20 Gorffennaf 2007, cyhoeddodd Tŷ'r Cwmnïau ddogfen ymgynghori yn ceisio sylwadau am y cynnig i gymhwyso rheolau'r cofrestrydd o dan y Ddeddf. Roedd yr ymgynghoriad yn gwahodd ymatebwyr i leisio barn ar gwestiynau'n ymwneud â materion fel:

- Dilysu dogfennau papur ac electronig
- Llunwedd ffurflenni
- Cymhwyso rheolau at fathau eraill o gwmni
- Trefniadau trosiannol ar gyfer ffurflenni
- Cyflwyno ffurflenni i'r cofrestrydd
- System Ffeilio Ar-lein Gwarchodedig Tŷ'r Cwmnïau ('PROOF')

Daeth y cyfnod ymgynghori i ben ar 12 Hydref 2007. Cafodd Tŷ'r Cwmnïau 26 ymateb gan amrywiaeth o fudd-ddeiliaid yn cynnwys ymarferwyr, cwmnïau, cyflenwyr meddalwedd a chyrff cynrychioli:

Ward Hadaway	Nockels Hornsey Chartered Accountants
Chettleburgh's Ltd	Cymdeithas y Gyfraith
Abell Morliss	CIFAS
Travis Perkins Plc	Y Sefydliad Rheoli Credyd
Barclays	The Company Centre Limited
Rothschild	Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig yr Alban
Prudential	Cymdeithas y Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig
UK Plc	Shell International Limited
Jordans	Dudley Miles Company Service Limited
ICSA Software	Waterlow Legal and Company Services
Dun and Bradstreet	Capita Company Secretarial Services
Iris	Data-care
ICC	Sefydliad yr Ysgrifenyddion a'r Gweinyddwyr Siartredig

Mae crynodeb o'r ymatebion i'r cwestiynau, ynghyd ag esboniad o sut y bydd Tŷ'r Cwmnïau yn bwrw ymlaen yng ngoleuni'r ymatebion hyn, wedi'i amlinellu isod.

Cwestiwn 1

Wrth ddatblygu'r rheolau newydd, rydym yn cadw mewn cof nifer o egwyddorion allweddol, gan gynnwys:

Symlrwydd. Mae'n hanfodol i bob defnyddiwr allu deall y rheolau'n rhwydd, gan gynnwys yn enwedig gwmnïau bach ac unigolion nad oes ganddynt, efallai, fynediad didrafferth i gyngor cyfreithiol. Bydd yr egwyddor hon yn rhoi ffurf nid yn unig i sylwedd a chynnwys y rheolau ond hefyd i'r ffordd y byddwn yn eu gosod allan, sut y trefnwn iddynt fod ar gael, a (lle bo angen) unrhyw gyfarwyddyd y gallwn ei gynnig yn eu cyswllt.

Parhad. Mae'r trefniadau cyfredol, gan gynnwys yr egwyddor o ddefnyddio ffurflenni papur a fformatiau electronig, at ei gilydd yn gweithio'n dda, ac ni fyddwn yn eu newid oni bai fod rheswm da dros wneud. Byddwn yn manteisio ar yr ystwythder newydd a gynigir gan Ddeddf Cwmnïau 2006 i symleiddio'r prosesu.

Hwyluso defnyddio e-gyfathrebu. Mae rhaglen o bwys ar y gweill gennym i uwchraddio'n galluoedd TG ac mae llawer o ddefnyddwyr yn mabwysiadu'r posibiliadau cyfathrebu newydd yn frwd. Bydd y duedd hon yn parhau, yn unol ag ymdrechion ar draws y llywodraeth yn fwy cyffredinol i feithrin e-gyfathrebu, ac mae angen ei hadlewyrchu yn y trefniadau newydd. Byddwn yn parhau i hybu'n gwasanaethau e-ffeilio yng ngoleuni'r buddion niferus sy'n deillio ohonynt, gan gynnwys cyflymdra, effeithiolrwydd, diogelwch ac arbed costau.

Ydych chi'n cytuno bod yr egwyddorion uchod yn ffactorau allweddol wrth ddatblygu'r rheolau?

A

Cwestiwn 2

Allwch chi awgrymu unrhyw egwyddorion eraill y dylem eu cymryd i ystyriaeth?

Roedd pawb o'r ymatebwyr yn annog yr egwyddorion a amlinellid yn y ddogfen ymgynghori, gan roi pwys neilltuol ar 'Hwyluso defnyddio e-gyfathrebu'. Mynegai rhai ymatebwyr bryder ynghylch gorsymleiddio'r reolau, neu risg bosib rheolau a fyddai'n ddianghenraid o hir, neu golli manylion wrth symleiddio maes cymhleth.

Awgrymwyd nifer o egwyddorion allweddol eraill, gan gynnwys diogeledd, symlrwydd, hygyrchedd, bod yn gryno, tryloywder, cysondeb ac ystwythder.

Gweithredu: Bydd Tŷ'r Cwmnïau yn cadw'r sylwadau a'r awgrymiadau hyn mewn cof wrth ddatblygu'r rheolau ac mae wrthi'n creu rhestr o ffactorau allweddol sydd i'w hystyried o ran dyluniad ffurflenni.

Cwestiwn 3

Ydych chi'n cytuno bod y system bresennol o godau dilysu cwmni a chodau personol yn gweithio'n foddhaol? Os nad ydych, a wnewch chi roi sylwadau neu awgrymiadau?

At ei gilydd, roedd ymatebwyr yn cefnogi'r system bresennol o godau dilysu cwmni a phersonol, gan gydnabod pwysigrwydd ei rôl wrth gynnal diogeledd gwybodaeth ac atal twyll. Soniai rhai ymatebwyr am yr anawsterau i ymarferwyr sydd angen cynnal sawl cod wrth ffeilio ar ran nifer o gleientydd. Mae modd eisoes gysoni codau dilysu cwmni unwaith eu bod wedi'u neilltuo. Derbyniwn, fodd bynnag, y bydd camau tuag at drefn Porth y Llywodraeth yn sicrhau gwell gwasanaeth gan y bydd yn darparu'n benodol ar gyfer dilysu asiantiaid/ymarferwyr.

Gwnaed nifer o awgrymiadau ynglŷn â chyfansoddiad codau dilysu a gwybodaeth bersonol, yn ogystal â'r trefniadau ar gyfer neilltuo codau o'r fath.

Gweithredu: Bydd Tŷ'r Cwmnïau yn adolygu'r sylwadau hyn yn unol â'r gofynion dilysu yng nghyswllt Porth y Llywodraeth.

Cwestiwn 4

Ydych chi'n cytuno bod dilysu dogfennau electronig yn rhan bwysig o helpu i sicrhau gwirionedd dogfennau?

NEU

Cwestiwn 5

Ydych chi'n credu na ddylem mwyach fynnu dilysiad dogfennau electronig?

Roedd trwch mawr yr ymatebwyr o blaid cadw dilysiad dogfennau electronig, gan fod hynny o gymorth i ddiogeledd ac atal twyll.

Gweithredu: Bydd y Cofrestrydd yn parhau i fynnu dilysiad ar gyfer dogfennau electronig.

Cwestiwn 6

Ydych chi'n cytuno y byddai system o "ddisgrifyddion swyddogaeth" ar gyfer ffurflenni a thrafodion electronig yn ddewisach na'r drefn bresennol sy'n seiliedig ar rifau adrannau?

Cwestiwn 7

Os nad ydych, pa system amgen y byddech yn ei hawgrymu?

Tra'r oedd rhai ymatebwyr yn derbyn at ei gilydd y byddai disgrifyddion swyddogaeth yn ddefnyddiol i newydd-ddyfodiaid, nid oedd y rhan fwyaf o blaid eu defnyddio fel unig uniaethydd ar ffurflenni. Teimlai llawer o ymatebwyr fod y system bresennol o rifo seiliedig ar adrannau yn amhrisiadwy, gan ei bod yn galluogi defnyddwyr i benderfynu'n gyflym y ffurflen gywir a'r adran berthnasol o'r Ddeddf. Awgrymai rhai y bydd defnyddwyr yn y pen draw yn syrthio'n ôl ar "god cryno" beth bynnag, gan y byddai'n well ganddynt i rif yr adran gael ei chynnwys ar bob ffurflen ac mewn safle mwy amlwg nag ar hyn o bryd ar y ffurflenni enghreifftiol a welid yn y ddogfen ymgynghori. Teimlid hefyd y byddai defnyddio rhifau adrannau yn hybu cynefindra â Deddf Cwmnïau 2006.

Gweithredu: Mae Tŷ'r Cwmnïau yn derbyn bod angen cod uniaethu i helpu cwsmeriaid i gyrchu dogfennau ac i hwyluso datblygiad eu systemau. Eir ymlaen â hyn fel rhan o'r gwaith ar ddatblygu ffurflenni newydd ar gyfer y Ddeddf Cwmnïau.

Cwestiwn 8

Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill am lunwedd y ffurflenni?

Daeth llawer o sylwadau defnyddiol i law ynglŷn â llunwedd y ffurflenni enghreifftiol a ddarparwyd. Gofynnai ymatebwyr i'r ffurflenni fod yn syml, cadw'r defnyddiwr mewn cof, bod yn gyson ac yn rhesymegol.

Gweithredu: Bydd Tŷ'r Cwmnïau yn cofleidio'r athrawiaethau hyn wrth ddylunio'r ffurflenni ac yn ymgynghori â grwpiau defnyddwyr ymgynghorol wrth eu datblygu.

Gofynnai un ymatebydd am i "lofnodydd awdurdodedig" hefyd gael ei ychwanegu at restr y bobl a allai lofnodi'r ffurflen.

Gweithredu: Mae Tŷ'r Cwmnïau yn ystyried ar hyn o bryd sut orau i gymhwyso triniaeth llofnodwyr awdurdodedig o dan adran 270/274 at ei ffurflenni.

Cwestiwn 9

Oes yna briodoleddau neu ofynion eraill y dylid eu cymhwyso at ffurflenni papur?

Ceisiai rhai ymatebwyr eglurder ynglŷn â'r gofynion darllenadwyedd yng nghyswllt y dogfennau papur a gaiff eu ffeilio, h.y. creu cyfrifon sglein a dulliau rhwymo. Bydd Tŷ'r Cwmnïau yn parhau i gynnig ei ganllawiau cyfredol ar y pwnc hwn, sef:

- Os ydych yn cynhyrchu cyfrifon sglein wedi'u hargraffu mewn lliwiau, byddwch cystal â chadw'r rheiny i'ch cyfranddeiliaid, a fydd yn eu gwerthfawrogi;
- Du ar bapur gwyn gyda gorffeniad di-sglein sydd angen ar Dŷ'r Cwmnïau;

- Mae fersiwn teipiedig o broflen argraffwyr heb ei rhwymo yn ddelfrydol, ar yr amod bod arni'r llofnodion angenrheidiol.

Ceisiai ymatebwyr eraill eglurder ynglŷn â defnyddio inc glas i lofnodi ffurflenni. Dylai pob testun ar y ffurflenni, gan gynnwys y llofnod, fod mewn inc du.

Gweithredu: Fe gedwir y pwynt mewn cof a bydd Tŷ'r Cwmnïau yn ymdrechu i wneud hyn yn gliriach ar y ffurflenni.

Gofynnwyd hefyd i Dŷ'r Cwmnïau ystyried derbyn papur o faint llythyrau Gogledd America yn hytrach nag A4 yn unig. Mae'r gofynion presennol yn seiliedig ar alluoedd a gosodiadau'r dechnoleg sganio gyfredol.

Gweithredu: Bydd Tŷ'r Cwmnïau yn ystyried meintiau papur eraill wrth i unrhyw gynnydd ddod i fod yn yr offer sganio.

<u>Cwestiwn 10</u>

Ydych chi'n cytuno â'r cynigion o ran ble y dylid anfon dogfennau? Os nad ydych, dywedwch wrthym pam.

Roedd ymateb cymysg i'r cynnig y dylid anfon dogfennau i'r un o swyddfeydd Tŷ'r Cwmnïau lle cafodd y cwmni ei gofrestru. Teimlai rhywrai fod yr ymagwedd hon yn brin o ystwythder, gan fod defnyddwyr yn ei gweld o gymorth i ffeilio yn unrhyw un o swyddfeydd Tŷ'r Cwmnïau, yn enwedig pan fôn nhw'n gaeth i derfynau amser tyn neu wrth drin materion grwpiau o gwmnïau ar draws awdurdodaethau o un brif swyddfa.

Y bwriad gwreiddiol y tu ôl i'r cynnig y dylid cyflwyno i'r swyddfa gywir oedd sicrhau bod dogfennau'n dod i law ac yn cael eu prosesu mewn ffordd brydlon. Ar hyn o bryd, caiff dogfennau ar gyfer cwmnïau Albanaidd a gyflwynir i swyddfa Llundain eu hanfon ymlaen i swyddfa Caeredin i'w prosesu. Cytunwn, fodd bynnag, fod angen inni fod yn hyblyg yn y cyswllt hwn.

Gweithredu: Gwelwn berswâd yn y ddadl dros gadw'r ymagwedd bresennol. Gan hynny, rydym wedi newid ein polisi a byddwn yn bwrw ymlaen ar y sail bod modd cyflwyno dogfennau i unrhyw swyddfa. Bydd hyn yn sicrhau bod defnyddwyr yn cael dyddiad dod i law ar sail y cyflwyno mewn unrhyw swyddfa, ond nid yw hyn yn dynodi derbyn y ddogfen i'w chofrestru nes iddi gyrraedd a chael ei harchwilio yn y swyddfa gywir. O ganlyniad, fe erys er budd y ffeiliwr i gyflwyno i'r swyddfa gywir er mwyn sicrhau cyrraedd a derbyn ynghynt, yn enwedig yn achos dogfennau lle mae amser yn hollbwysig, megis morgeisiau a chyfrifon.

<u>Cwestiwn 11</u>

Ydych chi'n cytuno â'r cynigion o ran sut y dylid cyflwyno dogfennau i'r cofrestrydd? Os nad ydych, dywedwch wrthym pam.

Yma eto, roedd y safbwyntiau'n rhanedig. Mynegai rhai ymatebwyr bryderon y gallai'r rheolau ynglŷn â chyflwyno fod yn rhy gyfarwyddol, gan beryglu ystwythder wrth gydnabod darparwyr gwasanaeth eraill. Teimlai defnyddwyr y dylid darparu ar gyfer trinwyr eraill fel TNT a DHL fel dewisiadau posib yn lle'r Post Brenhinol.

Gweithredu: Yng ngoleuni'r sylwadau hyn, bydd Tŷ'r Cwmnïau yn ystyried a oes ffordd addas o lunio'r rheolau fel eu bod yn cwmpasu pob darparydd gwasanaeth a phob dull cyflwyno.

Cwestiwn 12

Oes yna ddulliau cyflwyno eraill na chynhwyswyd gennym?

Gofynnai rhai ymatebwyr i Dŷ'r Cwmnïau ystyried derbyn dogfennau PDF drwy'r e-bost a hefyd ddogfennau dros beiriant ffacs.

Nid yw Tŷ'r Cwmnïau o blaid ffeilio dogfennau PDF gan nad yw hynny'n cynnig buddion ac effeithiolrwydd y drefn ffeilio electronig. Mae e-byst heb eu hamgryptio hefyd yn llai diogel na'r opsiwn gwasanaeth gwe y bydd Tŷ'r Cwmnïau yn symud tuag ato at ddibenion Software Filing. Ymhellach, ni fyddai ffeilio ar ddiwyg PDF yn galluogi Tŷ'r Cwmnïau i gadw data y gallai o bosib eu cyflenwi i gwsmeriaid chwilio yn y dyfodol. Cafodd cyflwyno dros beiriant ffacs ei ystyried o'r blaen ond nid yw'r problemau logistaidd a chost gweithredu a chynnal rhesi o beiriannau ffacs yn gwneud hyn yn ddewis ymarferol. Yn ychwanegol, nid yw ansawdd dogfennau ffacs yn ddigon da i'w sganio'n ddelweddau.

Cwestiwn 13

Ydych chi'n cytuno bod llofnodion ar ddogfennau papur yn rhan bwysig o helpu i sicrhau dilysrwydd y dogfennau?

NEU

Cwestiwn 14

Ydych chi'n credu na ddylem mwyach fynnu llofnodion ar ddogfennau papur?

At ei gilydd, teimlai ymatebwyr fod llofnodion yn gosod disgyblaeth bwysig ar y rhai sy'n llofnodi, er y cydnabyddid bod llofnodion yn creu risg twyll hunaniaeth. Teimlai rhai na chât dogfen mo'i thrin o ddifrif oni bai ei bod wedi'i llofnodi ac y byddai'n anodd sicrhau collfarn am ffugio heb lofnod. Cefnogai rhai defnyddwyr gamau tuag at feddalwedd adnabod arwyddnodau optegol lle gellid cuddio'r llofnod ar y cofnod cyhoeddus ond ei gynnal at ddibenion ymchwilio i weithgarwch twyllo.

Gweithredu: Roedd cefnogaeth unfrydol dros gadw'r gofynion llofnodi ar gyfer ffurflenni papur a bydd Tŷ'r Cwmnïau yn bwrw ymlaen ar y sail hon.

Cwestiwn 15

Ydych chi'n cytuno y byddai o gymorth i ddarparu fformatiau safonol ar gyfer penderfyniadau?

Roedd ymatebwyr at ei gilydd yn cefnogi'r cynnig i ddarparu fformatiau safonol ar gyfer penderfyniadau, gan gydnabod y byddai hyn yn hwyluso sicrwydd, cysondeb ac effeithiolrwydd. Fodd bynnag, byddai'n well gan y mwyafrif i Dŷ'r Cwmnïau ddarparu enghreifftiau neu batrymau dewisol gyda chanllawiau ar ffeilio penderfyniadau, yn hytrach na phennu ffurf orfodol.

Gweithredu: Does dim bwriad i greu ffurf orfodol ar gyfer penderfyniadau. Yn hytrach, bydd Tŷ'r Cwmnïau yn gosod angenrheidiau penodol sydd i'w cynnwys ar gopïau o benderfyniadau a gaiff eu hanfon at y cofrestrydd, megis:

- bodloni'r gofynion cyflwyniad, e.e. y papur a ddefnyddir, maint y ffont a lliwiau;
- cynnwys enw a rhif y cwmni mewn safle amlwg ar ddechrau'r penderfyniad;
- cynnwys llofnod a dynodiad y sawl sy'n llofnodi ar ddiwedd y penderfyniad.

Cwestiwn 16

Ydych chi'n cytuno y dylai'r un rheolau fod yn gymwys i fathau eraill o gwmni?

Er i rai ymatebwyr bennu angen posib am addasu mewn enghreifftiau arbennig, barn y trwch oedd y dylai'r un rheolau fod yn gymwys.

Gweithredu: Er mwyn cysondeb a symlrwydd, bydd Tŷ'r Cwmnïau yn bwrw ymlaen â'r ymagwedd hon.

Cwestiwn 17

Ydych chi'n credu y dylai fod trefniadau trosiannol i ganiatáu ffeilio "hen" ffurflenni am gyfnod penodedig ar ôl gweithredu'r Ddeddf newydd?

NEU

Cwestiwn 18

Ydych chi'n credu y byddai'n well gweithredu holl ffurflenni'r Ddeddf newydd o'r cychwyn cyntaf a pheidio â gwneud trefniadau trosiannol ar gyfer hen ffurflenni?

Roedd yr ymatebion i'r cwestiynau hyn yn gymysg. Roedd tua hanner yr ymatebwyr yn erbyn y syniad o greu trefniadau trosiannol ar gyfer hen ffurflenni, gan deimlo y gallai'r ymagwedd hon fod yn gymhleth a chreu dryswch. Roedd gweddill yr ymatebwyr naill ai:

- o blaid gwneud trefniadau trosiannol yn parhau rhwng 6 a 12 mis; neu
- yn teimlo mai dim ond ar ôl y gweithredu, os oedd y newid yn cyfeirio at ddyddiad cyn 1 Hydref 2008, y dylai hen ffurflenni fod yn dderbyniol; neu
- yn credu bod potensial i gyfuniad rhwng trefniadau trosiannol a chyflwyno ffurflenni newydd Deddf 2006 yn ddigymhlethdod, gan ddibynnu a fydd gwybodaeth yr hen ffurflen yn bodloni'r gofynion ffeilio'n briodol o dan Ddeddf 2006.

Gweithredu: Yn sgil dadansoddi pellach, y realiti yw y bydd gwahanol drynewidiadau yn angenrheidiol, gan ddibynnu ar ofynion y gyfraith ar gyfer pob ffurflen. Bydd hyn yn arwain at gymysgedd o'r trefniadau canlynol:

- derbyn ffurflenni Deddf 1985 yn drosiannol am gyfnodau penodedig os nad yw cynnwys y ffurflen neilltuol wedi newid, e.e. ffurflen 287 (Newid cyfeiriad y swyddfa gofrestredig) o bosib;
- derbyn rhai o ffurflenni Deddf 1985 am gyfnod amhenodol, e.e. ffurflenni blynyddol ar gyfer cyfnodau'n diweddu hyd at 30/09/09; a
- rhoi heibio'n syth i rai o ffurflenni Deddf 1985, e.e. ffurflenni corffori.

<u>Cwestiwn 19</u>

Oes gennych chi unrhyw sylwadau am gynigion Atodiad B i ddefnyddio rheolau'r Cofrestrydd?

Ymateb cyfyngedig a gafwyd i'r cwestiwn hwn. Pwysleisiai un defnyddiwr yr angen posib am adolygu'r rheolau yn sgil y gweithredu a'r cymhwyso ymarferol. Tanlinellai ymatebydd arall bwys y rheolau yn sgil proses tryloyw a thrwyadl, gan gymryd i ystyriaeth farn y budd-ddeiliaid.

Gweithredu: Gan fod y rheolau'n cael eu gosod yn weinyddol, yn hytrach na bod yn ddibynnol ar y proses Seneddol, gellir eu hamrywio os bydd angen. Bydd Tŷ'r Cwmnïau yn ystyried a oes angen adolygu'r rheolau 6-12 mis ar ôl y gweithredu.

Mynegai tri ymatebydd siom nad oedd Tŷ'r Cwmnïau yn bwriadu dilyn y llwybr cywiro anffurfiol ar gyfer delio â dogfennau na chaent mo'u cyflwyno'n briodol.

Gweithredu: Dyma un maes y bydd yn gymhleth ei gyflwyno ac am y rheswm hwn penderfynwyd aros tan ar ôl dyddiad gweithredu 2009. Byddwn wedyn yn adolygu sut mae triniaeth dogfennau a gaiff eu cyflwyno'n amhriodol yn gweithio.

Cwestiwn 20

Ydych chi'n cytuno y dylai'r cofrestrydd, er mwyn sicrhau ansawdd y gofrestr, fel arfer wrthod dogfennau sydd heb eu cyflwyno'n briodol fel y gall y cwmni/cyflwynydd eu cywiro'n fanwl eu hun?

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig i wrthod dogfennau pan na chânt mo'u cyflwyno'n briodol. Pwysleisid bod angen cysondeb rhwng y rhesymau dros wrthod a'r mecanwaith ar gyfer unioni'r ffeilio i gydymffurfio â "chyflwyniad priodol".

Gweithredu: Mae Tŷ'r Cwmnïau yn bwriadu cymhwyso'r meini prawf ar gyfer gwrthod mor gyson a rhesymegol ag y bydd modd at bob ffurflen.

Cwestiwn 21

Ydych chi'n credu y dylai unrhyw ddogfennau eraill gael eu cynnwys o fewn y system "PROOF" newydd?

Roedd mwyafrif y rhai a ymatebodd i'r cwestiwn hwn yn teimlo y dylai cynllun PROOF gwmpasu cymaint o ffurflenni â phosib. Gofynnai eraill am i'r canlynol yn benodol gael eu cynnwys:

- Penderfyniadau newid enw
- Penderfyniadau ailgofrestru
- Cyfrifon
- Ffurflen 225 (Newid dyddiad cyfeirnod cyfrifeg)
- Ffurflen 405 (1) (Rhoi gwybod am benodi derbynnydd neu reolwr)
- Ffurflen 600 (Rhoi gwybod am benodi datodydd o dan drefniadau dirwyn i ben yn wirfoddol (aelodau neu gredydwyr)
- Ffurflen 4.31 (Rhoi gwybod am benodi datodydd mewn achos o ddirwyn i ben gan y llys)
- Ffurflen 652a (Cais am ddileu o'r gofrestr)

Mae'n bwysig cadw mewn cof i gynllun PROOF gael ei greu'n benodol i fynd i'r afael â herwgipio cwmnïau a'r ffurflenni arbennig a ddefnyddir yn gyfrwng i gyflawni gweithgarwch twyllodrus o'r fath.

Gweithredu: Bydd Tŷ'r Cwmnïau yn ystyried a oes angen lledu cwmpas y cynllun PROOF newydd pan gaiff y ffurflenni a awgrymwyd uchod eu galluogi'n electronig ac wrth iddynt ymwreiddio'n ddigonol. Ond does dim cynlluniau i estyn cwmpas y mathau o drafodion electronig yn sylweddol cyn gweithredu'r Ddeddf Cwmnïau.

Cwestiwn 22

Ydych chi'n credu y dylai pob cyfarwyddwr, fel ar hyn o bryd, gydsynio i'r cwmni ymrestru o dan drefn PROOF, neu mai gan un cyfarwyddwr yn unig y mae angen dilysu ar ran y cwmni?

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn erbyn y gofyniad bod rhaid i bob cyfarwyddwr gydsynio i'r cynllun, gan fod hynny'n feichus ac yn mynnu gormod o amser. Fodd bynnag, roedd cyfran o'r ymatebwyr hyn - gan dderbyn ei bod yn bwysig i bob cyfarwyddwr gytuno i ymuno â threfn PROOF - yn teimlo y gallai un llofnod wanhau cyfanrwydd y cynllun. O ganlyniad, awgrymai un neu ddau o ymatebwyr, er y dylai llofnod un cyfarwyddwr fod yn ddigon, y dylai hyn gael ei ategu gan gopi o benderfyniad bwrdd yn cadarnhau bod gan y cyfarwyddwr hwnnw y pŵer i roi awdurdod o'r fath.

Gweithredu: Mae Tŷ'r Cwmnïau yn awyddus i hybu ac estyn PROOF fel y gall rhagor o gwmnïau fanteisio ar ffeilio gwarchodedig. Mae Tŷ'r Cwmnïau yn adolygu proses PROOF yn unol â darpariaethau statudol y Ddeddf newydd (yn yr ystyr mai'r cwmni ei hun sy'n gwneud y cytundeb o ran ffeilio electronig). Mae'n debyg mai dim ond un cyfarwyddwr fydd yn gorfod llofnodi'r cytundeb.